# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd Robert Smith**

**Ward: Rest Bay Porthcawl**

**Plaid: Annibynnol**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Ebrill 2023**.** Fe'i darperir er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r un a fynegir yn yr adroddiad hwn yw ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| |
|---|
| **<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Ward Rest Bay ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi bod yn aelod o'r pwyllgorau canlynol:<br><br>Cyngor<br>Trwyddedu<br>Gwasanaethau Democrataidd<br>Fforwm Cyngor Tref a Chymuned<br><br>Rwyf wedi cefnogi trigolion Rest Bay mewn nifer o ffyrdd ac wedi bod yn bresennol mewn Gweithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi cynorthwyo fy natblygiad i. |
| **<u>Gweithgarwch yn yr Etholaeth</u>**<br><br>Rwy'n falch fy mod wedi helpu fy etholwyr ar amrywiaeth o faterion fel yr amlinellir isod:<br><br>• Nifer o dyllau ar y ffordd<br>• Teithwyr yn Rest Bay<br>• Parcio anghyfreithlon ar dir comin Rest Bay<br>• Nifer o broblemau ailgylchu<br>• Palmant anwastad<br>• Problemau goleuo<br>• Materion cynllunio<br>• Gwella'r ffordd o amgylch traeth Rest Bay a Ffordd Fulmar |
| **<u>Mentrau a Gweithgareddau Arbennig</u>**<br><br>Rwyf wedi bod yn gweithio ar geisio gwella problemau parcio ceir o amgylch traeth Rest Bay ac rwy'n parhau i geisio sicrhau bod gan yr ardal hon yn benodol y cyfleusterau y |

mae eu hangen arni i barhau i ddenu teuluoedd o bob cwr o'r DU ac yn wir o’r byd, tra bydd hefyd yn lle y gall trigolion Rest Bay ei fwynhau.

Rwyf wedi nodi rhai mannau gwyrdd sydd heb eu defnyddio a allai fod yn addas ar gyfer ardaloedd chwarae a byddaf yn parhau i fynd ar drywydd hyn.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwy'n rhedeg cwmni budd cymunedol sy'n cefnogi plant ac oedolion ifanc sydd ag anghenion ychwanegol ledled Porthcawl a'r fwrdeistref yn gyffredinol.

**Y Cynghorydd R Smith** **Dyddiad: 30 Mehefin 2023**